**TAFLEN BENDERFYNIAD BWRDD Y CYNGOR/ COUNCIL BOARD DECISION NOTICE**

**Dyddiad/Date 1/11/11**

PWNC / SUBJECT **(Eitem/Item 5)**

**Hafan, Pwllheli**
***Hafan, Pwllheli***

---

PENDERFYNIAD / DECISION

**a) Cefnogi'r Cynllun Gweithredu Hafan Pwllheli a threfniadau ariannu cysylltiedig sef cwtogi £70,000 ar y targed incwm i adlewyrchu 5% o'r angorfeydd yn wag, £70,000 ar gyfer rhewi chwyddiant a £100,000 ar gyfer pechyn anogaeth megis disgowntiau, ayb**
**b) Nodi'r angen i ymateb yn sydyn i'r heriau amrywiol sy'n wynebu'r Hafan, a lleihau risgiau ariannol i'r Cyngor yn ystod 2012/13**
**c) Nodi'r bwriad o symud ymlaen i baratoi cynllun tymor hir ar gyfer Hafan Pwllheli gyda'r gwaith o garthu'r harbwr a'r sianel yn cael ei fonitro'n llawn ac adroddiadau'n cael eu cyflwyno'n gyson i nodi holl ddatblygiadau'r Cynllun**

**a)** ***To support the Hafan Pwllheli Action Plan and associated funding arrangements, namely cutting the target income by 5% to reflect that 5% of the moorings are empty, £70,000 for freezing inflation and £100,000 for a promotion pack such as discounts etc.***
***b) To note the need to respond promptly to the various challenges facing Hafan, and reduce the financial risks to the Council during 2012/13***
***c) To note the intention to proceed to prepare a long-term plan for Hafan Pwllheli, with the work of dredging the harbour and the channel being fully monitored and reports submitted regularly noting all the Plan's developments.***

---

Rhesymau dros y penderfyniad / Reason for the decision:-

Yn dilyn llwyddiant Hafan Pwllheli o safbwynt economaidd ac yn y modd y datblygodd i fod yn un o gyrchfannau hwylio gorau'r wlad, ystyrir bellach bod angen ymateb i sawl her allasai arwain at danseilio'r llwyddiant .

Mae'r bwriad i adolygu trefniadau rheoli'r Hafan yn rhan o Gynllun Busnes yr Adran Economi a Chymuned ar gyfer 2011/12. Byddai hyn yn cynnwys datblygiad yr Academi Hwylio, rheolaeth yr harbwr, strategaeth garthu a chyfleoedd i'r dyfodol.

Wrth adnabod ystod eang o heriau sy'n wynebu'r Hafan, nodir bod y ddau fater canlynol yn ganolog iddynt:
- Materion carthu'r harbwr (a'r sianel)
- Ffioedd blynyddol yr Hafan.

Paratowyd Cynllun Gweithredu Hafan Pwllheli 2012/13 ynghyd â dulliau o'i ariannu. Nodwyd yr angen am benderfyniad buan ynglŷn â gweithredu'r rhain.

---

Ceisiwyd sêl bendith Bwrdd y Cyngor i weithredu'r bwriadau ar gyfer ymateb i'r heriau sy'n wynebu'r Hafan.

*Following Hafan Pwllheli's success from an economic perspective, and in the way it developed to be one of the country's best sailing destinations, it was now considered that there was a need to respond to many challenges that could lead to undermining that success.*

*The intention to review the management arrangements for Hafan was part of the Economy and Community Department's Business Plan for 2011/12. This would include the development of the Sailing Academy, management of the harbour, the dredging strategy and opportunities for the future.*

*In identifying a broad range of challenges that were facing Hafan, it was noted that the two following matters were integral to them:*

- *Harbour (and channel) dredging matters*
- *Hafan's annual fees*

*The Hafan Pwllheli Action Plan 2012/13 was prepared together with a method of funding it. The need for a prompt decision with regard to implementing these was noted.*

*The Council Board's approval was sought to implement the intended steps for responding to the challenges which Hafan faced.*

---

Sylwadau neu bwyntiau croes / Observations or opposing views:-

(i) Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r adroddiad gan yr Arweinydd Portffolio – Dysgu Gydol Oes, ac yr oedd am nodi ei werthfawrogiad am yr adroddiad cynhwysfawr.

(ii) Pwysleisiodd fod angorfeydd yn wag yn yr Hafan o achos y dirywiad a bod hyn yn golygu lleihad yn incwm y Cyngor. Nododd yr angen i gael ateb tymor hir i'r problemau a chefnogodd Gynllun Gweithredu'r Hafan.

(iii) Rhoddwyd cyfle i aelod lleol Pwllheli (de) i gyflwyno sylwadau a phwysleisiodd fod yr Hafan yn adnodd sydd o werth neilltuol i'r Cyngor.

(iv) Nododd mai ffioedd angorfeydd yr Hafan yw'r rhai uchaf yng Nghymru a'u bod hefyd ymysg y rhai uchaf ym Mhrydain. Ychwanegodd fod angen adnabod a datrys yr holl broblemau a achosir gan y llaid a gro sy'n casglu yn y sianel ac o fewn yr harbwr.

(v) Ymhelaethodd ar faterion eraill sy'n gysylltiedig â'r Hafan gan nodi'r prif bwyntiau canlynol:

- fod Clwb Hwylio Pwllheli yn llwyddo i ddenu llawer o gystadlaethau cenedlaethol a rhyngwladol yn gyson ac y dylid osgoi dirywiad er mwyn gwarchod y llwyddiant yma
- fod yr Academi Hwylio yn holl bwysig ac y dylid creu sefyllfa fel y gellir gwneud defnydd llawn o'r datblygiad

(vi) Nododd aelod fod tywydd anffafriol yn ystod y tair blynedd ddiwethaf yn ogystal â'r hinsawdd economaidd wedi cael effaith andwyol bellach ar y sefyllfa. 'Roedd hefyd am i'r sefyllfa parthed y carthu gael ei monitro'n llawn gydag adroddiadau'n

cael eu darparu'n gyson er mwyn cyflwyno gwybodaeth ynglŷn â'r sefyllfa.

(vii)Tanlinellwyd cefnogaeth i'r Cynllun gan aelodau eraill a gwnaed yr awgrymiadau canlynol:

- y dylid sefydlu cynllun 5 mlynedd fel y gellir ymestyn ffiniau'r gwaith.
- y dylid bod yn bendant a rhoi blaenoriaeth i'r gwaith o gadw'r sianel mewn cyflwr o safon fel y gellir ei ddefnyddio ar unrhyw adeg.
- y dylid nodi symiau penodol ar gyfer cyflawni'r gwaith.

(viii) Mewn ymateb dywedodd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned fod cynlluniau monitro wedi eu sefydlu eisoes. Nododd fod arolwg hydrograffeg yn rhoi gwybodaeth parthed datblygiadau yn yr harbwr a'r sianel. Yn ogystal cyflwynir adroddiadau i Bwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli ddwywaith y flwyddyn.

Nododd ymhellach fod y Cynllun yn canolbwyntio ar dymor 2012/13 ond fod bwriad i ymestyn y cyfnod gyda'r Academi Hwylio yn rhan amlwg o'r datblygiadau.

Derbyniodd y swyddog fod safon y sianel yn allweddol bwysig ac yn y tymor hir dywedodd y gellid gwneud adolygiad ar gyfer gwneud defnydd llawn o ddyfnder naturiol y sianel.

(ix) Cefnogwyd y Cynllun Gweithredu o safbwynt ffioedd a oedd yn golygu ymrwymiad o £240,000 yng nghyllideb 2012/13 sef :

- £70,000 (addasu sail targed incwm yr Hafan i 95% o'r angorfeydd yn llawn)
- £70,000, (rhewi chwyddiant)
- £100,000, (pecyn anogaeth gan gynnwys cynllun disgownt).

*(i) The Portfolio Leader – Lifelong Learning set out the background and context of the report, and he wished to note his appreciation for the comprehensive report.*

*(ii) He emphasised that there were empty moorings in Hafan due to the recession which meant less income for the Council. He noted the need to have a long-term solution to the problems, and his support for the Hafan Action Plan.*

*(iii) The local member for Pwllheli (south) was given an opportunity to submit observations and he emphasised that Hafan was a particularly valuable resource to the Council.*

*(iv) He noted that Hafan's mooring fees were the dearest in Wales and were also among the highest in Britain. He added that they needed to identify and resolve all the problems caused by the silt and gravel which gathered in the channel and within the harbour.*

*(v) He expanded on other matters associated with Hafan, and noted the following main points:*

- *That Pwllheli Sailing Club succeeded in attracting a number of national and regional competitions regularly, and a reduction in these should be avoided so as to safeguard this success*
- *That the Sailing Academy was vitally important and that full use of the development should be made*

*(vi) A member added that unfavourable weather during the past three years as well as the economic climate had adversely affected the situation. The member also wished for the dredging situation to be monitored fully and for reports to be submitted regularly in order to present information on the situation.*

*(vii) Other members highlighted their support to the Plan, and the following suggestions were made:*

- *That a five year plan should be established so that the boundaries of the work could be extended*
- *That certainty and priority should be given to the work of keeping the channel in a good condition so that it could be used at any time*
- *That specific sums should be noted for completing the work.*

*(viii) In response, the Senior Manager – Economy and Community stated that monitoring plans had already been established. He noted that a hydrography survey provided information regarding developments in the harbour and channel. Furthermore, reports were being submitted to Pwllheli Harbour Consultative Committee twice a year.*

*He further noted that the Plan focused on the 2012/13 season but that it was intended to extend the period with the Sailing Academy being a prominent part of the developments.*

*The officer accepted that the standard of the channel was of key importance, and in the long term stated that a review could be conducted in order to make full use of the channel's natural depth.*

*(ix) The Action Plan in terms of fees was supported, which meant a commitment of £240,000 in the 2012/13 budget as follows:*

- *£70,000 (amend the target income baseline for Hafan to 95% of the moorings occupied)*
- *£70,000 (freeze inflation)*
- *£100,000 (promotion pack including discount)*

Barn y swyddogion statudol / The views of the Statutory Officers:-

1. Y Prif Weithredwr / Chief Executive:-

Mae'r nodyn ym mharagraff 1.3 yn crynhoi'r heriau y mae'r Hafan yn eu hwynebu. Fel mae'r adroddiad yn amlygu, mae angen mynd i'r afael a materion yn y tymor byr ac yn y tymor hwy. Rwy'n cymeradwyo'r argymhellion fel ag y maent.

*The note in paragraph 1.3 summarises the challenges the Hafan faces. As the report highlights, there is a need to address issues in the short and longer term. I approve the recommendations as they stand.*

2. Swyddog Monitro / Monitoring Officer:-

Dim i'w ychwanegu o ran priodoldeb / *Nothing to add regarding propriety*

3. Prif Swyddog Cyllid / Chief Finance Officer:-

Fel dywedai rhan 1.6 o adroddiad y Pennaeth Economi a Chymuned, bydd adolygiad

gyda golwg ar uchafu'r budd hirdymor o asedau'r Cyngor yn Harbwr Pwllheli. Dros y degawd llwyddiannus diwethaf, sylwer o ran 2.4.1 y bu cyfle i gynyddu prisiau uwchben chwyddiant a llwyddiant er mwyn denu incwm er lles yr Uned Forwrol a'r Cyngor fel eglurai rhan 3.1 a 3.2. Erbyn hyn, mae cyflwr y farchnad gyffredinol, cystadleuaeth yn y sector benodol, ac amgylchedd yr harbwr / sianel yn golygu na fydd modd parhau i gyfrannu tua £650,000 i'r Cyngor. Wrth ddarparu adnodd masnachol, rhaid ymateb yn ystwyth i'r newid mewn galw am wasanaeth, a chredaf fod y cynllun gweithredu yn ymateb teg i heriau'r Hafan. Golygai ymrwymiad o £240,000 yng nghyllideb 2012/13 - £70,000 i gydnabod lefel defnydd tebygol 95% o'r angorfeydd (yn lle 100%), £70,000 arall er mwyn rhewi chwyddiant (0% yn lle 4.2%) ar y targed incwm, ac £100,000 (unwaith yn 2012/13) ar gyfer cynllun disgownt.

Wrth gwrs, bydd hyn yn dwysau sefyllfa ariannol anodd y Cyngor ei hun, ond barn y rheolwyr perthnasol yw y byddai codi ffioedd yn golygu lleihad mewn galw am angorfeydd a cholled mwy, a rhaid cydnabod y bydd nifer o unedau masnachol yn gorfod gostwng lefel prisiau eleni. Ymhellach, gofynnir yma am benderfyniad buan sy'n rhagfarnu proses cyllideb 2012/13 a phenderfyniadau ar y 'bidiau', ond bydd awdur yr adroddiad yn medru egluro'r cyfiawnhad masnachol dros weithredu a chynnig telerau yn gynnar.

*As section 1.6 of the Head of Economy and Community's report states, there will be a review with a vision on maximising the long term benefit of the Council's assets at Pwllheli Harbour. Over the last successful decade, please note with regard to 2.4.1 that there will be an opportunity to increase prices over inflation and success in order to attract income for the benefit of the Council's Maritime Unit as explained in 3.1 and 3.2. By now, the condition of the general market, competition in the specific sector, and the environment in the harbour/channel means that it won't be possible to continue to contribute approximately £650 to the Council. By providing a commercial resource, a supple response is required to the change in demand for services, and I believe that the implement scheme is a fair response to the Hafan's challenges. A commitment of £240,000 in the budget for 2012/13 means - £70,000 to acknowledge a probable 70% usage level of the moorings (insead of 100%), another £70,000 in order to freeze inflation (0% instead of 4.2%) on the income target, and £100,000 (once in 2012/13) for the discount scheme.*

*Obviously, this will intensify the Council's difficult financial situation, however the opinion of the relevant managers is that rising fees means a reduction in the demand in moorings and a further loss, and it must be acknowledged that a number of commercial units will have to reduce their prices this year. Furthermore, it is asked in this report for early decisions that prejudice the 2012/13 budget processes and decisions on the 'bids', however the report's author will be able to explain the commercial justifications over implementing and offering early terms.*

Barn yr aelod lleol / Views of the Local Member

**Ddim yn fater lleol/*Not a local matter***